



# 2022-2023
## Adroddiad Sefydliadol #13
**Y cyfnod dan sylw: 1 Ebrill – 30 Mehefin 2022**

Lluniau: Cyfrolau Rhestr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, 2022

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Trosolwg Cyd Brif Weithredwyr Dros Dro 3
Uchafbwyntiau chwarter 1 4
Ein lle yn y sector 6
Diweddariad Staff a Swyddfa 7
Diweddariad Tŷ Newydd 8
Gweithgareddau ar y gweill 9

**Ein heffaith:**
Golwg manwl ar ein nod Iechyd a Llesiant 10
**Cynnydd yn erbyn ein targedau**
Cyngor Celfyddydau Cymru 2022-23 12
Targedau Gweithredol 19
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 22
Cynaladwyedd 24

**Gwersi i'w Dysgu**
Sefydliadol a Gweithredol 25
Gweithgaredd 26

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad y Cyd Brif Weithredwyr Dros Dro

Yn chwarter 1 daeth ein Cynllun Strategol 2022-25 i rym o’r diwedd, ar ôl misoedd o baratoi ein rhaglenni i gyflawni ein amcanion newydd. Yn benodol, bydd ein holl waith nawr yn canolbwyntio ar Gynrychiolaeth a Chydraddoldeb, yr Argyfwng Hinsawdd a Iechyd a Llesiant, ac yn gweithio tuag at sicrhau Cymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau. Cychwynnodd y cyfnod newydd hwn gyda ffarwelio â’n Prif Weithredwr ers dros ddeng mlynedd, Lleucu Siencyn, sydd wedi symud i fod yn Gyfarwyddwr Datblygu’r Celfyddydau gyda Chyngor y Celfyddydau. Yn y cyfnod dros dro hyd nes y bydd penodiad newydd yn ei le yn yr hydref, mae’r Dirprwy Brif Weithredwr Claire Furlong a’r Arweinydd Creadigol Leusa Llewelyn wedi derbyn dyrchafiad fel Cyd Brif Weithredwyr Dros Dro.

Daeth tymor y gwanwyn â dechreuad newydd a chyfle i roi trefn ar ein tŷ. Mae nifer o systemau gweithredol wedi'u newid a'u cyflwyno, gan ganiatáu i ni gyflawni ein prosiectau'n fwy effeithiol, casglu a mapio ein effaith dros y tair blynedd nesaf, a gwella ein sianeli cyfathrebu mewnol. O’r herwydd, rydym yn cychwyn ein blwyddyn newydd yn gweithio'n fwy effeithlon nag erioed, fel y bydd yr adroddiad sefydliadol hwn yn ei brofi, gan weithio tuag at dargedau sy'n cael gwir effaith a gan graffu yn ofalus ar wersi sydd yn rhaid i ni eu dysgu o’n camgymeriadau.

Roedd y gwanwyn hwn yn nodi dwy flynedd ers y cyfnod clo COVID-19 cyntaf, ac yn gyfle i ddychwelyd yn ofalus i gynnal peth gweithgaredd wyneb yn wyneb, gan gynnwys ailagor Tŷ Newydd. Llenwyd pob ystafell ar gyfer ein Dosbarth Meistr Barddoniaeth mawreddog gyda chyn Fardd Cenedlaethol Cymru Gillian Clarke a’r Cyn Fardd Llawryfog Carol Ann Duffy ym mis Mai, ac mae’r rhan fwyaf o’n cyrsiau’n gwerthu’n weddol dda. Ond yn fwy cyson â’n gwerthoedd a’n blaenoriaethau fel sefydliad, cynhaliwyd 6 chwrs strategol rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd yn chwarter 1 i fynd i’r afael â than-gynrychiolaeth yn ein sector ac i greu partneriaethau pwysig. Mae hyn yn arwydd o gyfeiriad newydd i Dŷ Newydd, ac yn cyd-fynd yn well â gwerthoedd a blaenoriaethau’r cwmni. Mae’r pandemig wedi dysgu llawer i ni ac rydym yn benderfynol o barhau â’r datblygiadau cadarnhaol y mae eu hangen, megis pwysigrwydd cyrraedd cynulleidfaoedd sydd ym methu gadael eu cartrefi trwy gynnal gweithgareddau rhithiol a hybrid, a’r angen i ganolbwyntio ein hadnoddau lle gallant gael yr effaith fwyaf ar gymdeithas.

Ym mis Mehefin, cafwyd cyfle i rannu ein cyffro dros ein strategaeth newydd yn ein digwyddiad Barddoniaeth yn y Senedd yng nghwmni’r Prif Weinidog Mark Drakeford a’r Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau a Chwaraeon Dawn Bowden, lle bu aelodau staff, cyfarwyddwyr a rhai o awduron gorau Cymru yn rhannu’r llwyfan er mwyn rhannu ein gweledigaeth yn greadigol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Yn olaf, bu datblygiadau hynod bwysig gyda rhai o’n prif raglenni’r gwanwyn hwn, gyda chriw newydd Cynrychioli Cymru yn dechrau ar eu cynllun datblygu awduron blwyddyn o hyd ym mis Ebrill; dewiswyd Bardd Cenedlaethol newydd Cymru, Hanan Issa; cyhoeddwyd ein pedwar prosiect comisiwn natur a'r amgylchedd ar gyfer y flwyddyn; a datgelwyd rhestrau byrion Llyfr y Flwyddyn.

Mae’n bleser gennym gyflwyno’r Adroddiad Sefydliadol hwn, a rydym yn hyderus fod tîm Llenyddiaeth Cymru wedi cyd-weithio yn effeithiol yn ystod cyfnod anodd er mwyn cyflawni gwaith rhagorol sy’n gwneud cynnydd da tuag at ein gweledigaeth ni oll ar gyfer llenyddiaeth yng Nghymru.



Map o ymwelwyr Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- **Encil Sgiliau Sgriptio**: Mewn partneriaeth â Theatr y Sherman, cynhaliwyd yr encil hon yn Nhŷ Newydd ym Mehefin ar gyfer dramodwyr sy'n cael eu tangynrychioli.
- **Plethu / Weave:** Mae dwy fideo o'n prosiect gwych gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wedi'u rhyddhau dros y misoedd diwethaf: Anadla'n erbyn y corwyntoedd, a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd gan Patrick Jones, gyda'r coreograffi a'r dawnsio gan Yvette C Halfhide; a Streams | Llifo, a ysgrifennwyd gan Jaffrin Khan gyda Jodi Ann Nicholson yn artist, yn dawnsio ac yn golygu'r ffilm.
- Cynhaliwyd proses ymgynghoriad ar raddfa fawr, gyda'r staff yn treulio cyfanswm o **14 awr** yn sgwrsio ag awduron, sefydliadau ac academyddion i ddatblygu rownd nesaf **Cynrychioli Cymru**, a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu awduron sy'n cael eu tangynrychioli ym maes llenyddiaeth plant.
- Cynhaliwyd y gweithdai **Cymru Ni / Our Wales** cyntaf ym mis Mehefin fel rhan o'n prosiect ar gyfer Adran Addysg Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o roi sylw i anghydraddoldebau strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol, a hynny gan yr artistiaid clare e potter a Nia Morais.
- Parhaodd y **Sgyrsiau Creadigol** ym mis Mehefin gyda'r hwylusydd Siw Jones yn arwain sgwrs Gymraeg am sut i gyflwyno'r gynghanedd mewn ysgolion.
- Ym mis Mai, cafodd Michael Sheen frecwast â myfyrwyr yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail, fel rhan o'r prosiect **Do you Get me**. Mae modd darllen am y prosiect fan hyn.

## Gweithrediadau

- Ffarweliwyd â **Lleucu Siencyn** ym mis Ebrill, ac ar hyn o bryd, rydyn ni'n recriwtio am Brif Weithredwr newydd. Yn y cyfamser, mae **Leusa Llewelyn** a **Claire Furlong** yn Brif Weithredwyr dros dro.
- Daeth **Branwen Llewellyn** yn Arweinydd Cyfathrebu parhaol a dyrchafwyd **Owen Wyn Jones** yn Gydlynydd Gweithredol yn Ebrill. Hysbysebwyd am **2** swydd newydd, a chroesawyd **Lora Jukes-Hughes** yn swyddog Cefnogaeth Gweithredol ac **Arddun R Arwel** yn Gydlynydd Cyfathrebu ym mis Mehefin.
- Cwblhaodd y staff arolwg o arferion gwaith ym mis Mai, yn sail i'n **Cynllun Gweithredu Cynaladwyedd** ac i leihau ein heffaith gyffredinol ar yr amgylchedd.
- Cafodd Llenyddiaeth Cymru ddogfennau cytundeb dirprwyo'r loteri wedi'u llofnodi gan **Gyngor Celfyddydau Cymru** ym mis Mehefin, ac mae'r gwaith yn dechrau i drosglwyddo'r taliad ar gyfer blwyddyn ariannol 22/23.
- Cafodd yr holl staff **hyfforddiant gwrth-dwyll** ym mis Mai a chafodd staff Tŷ Newydd **hyfforddiant Diogelwch Tân** ym mis Mehefin, a hynny gan **Môn Fire Management**.
- Mae'r gwaith adnewyddu'n parhau yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, gan gynnwys gosod ffenestr fae newydd yn **Ystafell Gillian**.
- Ddiwedd mis Mehefin, symudodd yr holl staff i **system SharePoint**, gan symleiddio'r broses o gydweithio a chyfathrebu rhwng prosiectau.
- Ym mis Ebrill, fe lansiodd **Llenyddiaeth Cymru** Ymchwil Ffioedd Awduron, mewn partneriaeth â **Phrifysgol Aberystwyth**.




Cynllun Strategol newydd **Llenyddiaeth Cymru,** 2022-2025



Cyhoeddwyd prosiectau llwyddiannus **Gwaith Comisiwn i Awduron #4** ym mis Mai, sy'n canolbwyntio ar y thema natur a'r amgylchedd er llesiant.




Ym mis Ebrill, cyhoeddwyd yr ail grŵp o awduron sy'n elwa o raglen **Cynrychioli Cymru**, ac ym mis Mai, cyhoeddwyd cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus am ddim fel rhan o'r cynllun.




Croesawyd 9 o awduron newydd **Dŷ Newydd** ar gyfer cwrs 'Stori i Bawb'




Cafwyd arddangosfa o waith a grëwyd gan gyfranogwyr prosiect **Ar y Dibyn** yn **Galeri Caernarfon**.



Daeth **6** o awduron i **Dŷ Newydd** fel rhan o brosiect **Sudoku**, gweithgaredd olaf **Ifor ap Glyn** wrth i'w gyfnod fel **Bardd Cenedlaethol Cymru** ddirwyn i ben.




Comisiynwyd y **Children's Laureate**, Connor Allen gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru i gyfansoddi cerdd i nodi #GwleddyGwanwyn fis Ebrill.



Cynhaliwyd encil **Sgiliau Sgriptio** yn **Nhŷ Newydd** mewn partneriaeth â **Theatr y Sherman**, lle croesawyd 12 o ddramodwyr sy'n cael eu tangynrychioli i'r ganolfan.




Cynhaliwyd y digwyddiad **Dihuno'r Dychymyg** cyntaf ym mis Mehefin, sef cyfres o ddigwyddiadau dros bedair mlynedd i ddathlu barddoniaeth yn y senedd.

# Ein lle yn y Sector

Mae pob aelod o staff yn Llenyddiaeth Cymru yn cyflawni gwaith hwyluso ledled y sector, boed hynny trwy ateb ymholiadau gan awduron neu wneud cyflwyniadau cyhoeddus mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau. Yn y chwarter diwethaf, rydym wedi mwynhau cael mynychu digwyddiadau wyneb-yn-wyneb unwaith eto. Roedd gennym gynrychiolaeth dda yng Ngŵyl y Gelli lle cadeiriodd Leusa Llewelyn ddigwyddiad gyda golygyddion *Welsh (Plural),* a chafodd Claire Furlong gwrdd â chydweithwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru, a – gyda Miriam Sautin – Awdur Llawryfog Iwerddon a threfnwyr y cynllun.

Bu Ela Pari Huws a Leusa yn Eisteddfod yr Urdd, a chymerodd Claire ran mewn digwyddiad Ysgrifennu'r Hinsawdd, a drefnwyd gan Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau.

Rydym wedi cyfrannu at sgyrsiau mewn fforymau di-rif ledled y sector, megis bod yn rhan o bwyllgor *trefnu Beth Nesaf? Cymru* a chymryd rhan mewn ymchwil ar wella amrywiaeth o fewn swyddi arweiniol gyda chwmnïau cenedlaethol eraill.

Mae ein staff wedi cyflawni 258.6 awr o weithgareddau hwyluso'r sector y chwarter hwn. Cefnogaeth i'r sector gan staff oedd 138.7 o'r oriau hynny, a 119.9 awr tuag at ennill gwybodaeth gan eraill, sy'n ein rhoi ar ben ffordd er mwyn cyflawni ein targed blynyddol.

## Dihuno'r Dychymyg: Barddoniaeth yn y Senedd

Ar 14 Mehefin, fe wnaethom ni gynnal digwyddiad yn y Senedd – y cyntaf mewn cyfres o wyth dros y bedair mlynedd nesaf. Roedd yn gyfle gwych i rannu ein strategaeth yn gyhoeddus, yn ogystal â lansio'r antholeg hyfryd, *Maps & Rooms*, sy'n gyfrol o weithiau gan y grŵp o awduron ar raglen Cynrychioli Cymru #1.

Roeddem yn hynod falch o groesawu Mark Drakeford a Dawn Bowden, ill dau wedi cyflwyno areithiau yn trafod grym a phŵer barddoniaeth yn ein cymdeithas. Daeth nifer o ASau a gwesteion o sefydliadau amrywiol o'r sector celfyddydol a thu hwnt i ymuno â ni hefyd. Roedd nifer o aelodau staff wedi mynychu'r digwyddiad, ac wedi mwynhau sgyrsiau gwerthfawr gydag amrywiaeth o randdeiliaid – o awduron i gyrff cyhoeddus.

Mae'r digwyddiad wedi arwain at nifer o sgyrsiau a chyfleoedd i gydweithio, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer rhagor o ymwneud ag Aelodau'r Senedd i hyrwyddo'n negeseuon.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Diweddariad Swyddfa a Staffio

Yn dilyn dau ymgyrch recriwtio dros y misoedd diwethaf, mae dau aelod o staff newydd wedi ymuno â Llenyddiaeth Cymru ym mis Mehefin. Mae **Lora Juckes-Hughes** yn Swyddog Cymorth Gweithredol yn swyddfa Tŷ Newydd, gan helpu i redeg y ganolfan o ddydd i ddydd; ac mae **Arddun Rhiannon Arwel** yn ymuno â'r tîm yng Nghaerdydd fel Cydlynydd Cyfathrebu, gan gefnogi'r tîm Cyfathrebu i gyflawni gwaith o fewn y disgyblaethau marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys gwerthiant cyrsiau Tŷ Newydd.

Yn ystod proses Adolygu Datblygiad Proffesiynol eleni, mae dau aelod o staff wedi cael dyrchafiad: **Branwen Llewellyn** yw ein Arweinydd Cyfathrebu parhaol, ac mae **Owen Wyn Jones** nawr yn Gydlynydd Gweithrediadau.

Gyda chyfyngiadau COVID-19 bellach wedi dod i ben, mae rhai aelodau staff yn dychwelyd i weithio yn y swyddfa yn fwy rheolaidd, a hynny o fewn model gweithio hybrid. Mae aelodau staff yn Nhŷ Newydd yn gweithio o'r swyddfa oddeutu diwrnod yr wythnos, gydag aelodau staff craidd yn gweithio ar y safle yn llawn-amser tra mae cyrsiau'n digwydd. Mae mwyafrif y staff yng Nghaerdydd yn mynychu'r swyddfa o leiaf diwrnod yr wythnos, ac yn gweld budd o wneud hynny.

Dros y misoedd nesaf, bydd cynllun cynhwysfawr ar gyfer gweithio ôl-pandemig yn cael ei ddyfeisio, mewn ymgynghoriad â'r staff.

## Hyfforddiant gyda Lesley Rossiter

Yn ystod y broses o recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr, ac o ganlyniad i adborth a gasglwyd yn ystod y broses Adolygu Perfformiad Proffesiynol, rydym wedi cyflogi'r hwylusydd Lesley Rossiter i gyflawni cyfres o sesiynau hyfforddiant.

Rydym wedi cynnig 2 sesiwn hyfforddi unigol i helpu pob aelod o'r Uwch Dîm Arwain i'w cefnogi drwy'r broses hon o newid.

Yn ogystal, bydd Lesley yn arwain sesiynau i'r tîm cyfan, sydd wedi eu cynllunio i gefnogi newidiadau er gwell i'n cyfathrebu mewnol, a gosod ffiniau gwell rhwng rheoli prosiect a rheoli llinell.

Bydd y sesiwn olaf gan Lesley yn weithdy, wedi ei ariannu gan Gelfyddydau a Busnes Cymru, sy'n ein helpu i roi ein gwerthoedd ar waith a datblygu ein 'Addewid' i fod yn sefydliad moesegol.

# Diweddariad Tŷ Newydd

## Uchafbwyntiau

Yn ystod chwarter 1, cynhaliwyd sawl cwrs a gweithgaredd strategol yn Nhŷ Newydd yn cynnwys ein Dosbarth Meistr Barddoniaeth poblogaidd dan ofal Gillian Clarke and Carol Ann Duffy, cwrs Cynganeddu i fenywod ac unigolion anneuaidd mewn partneriaeth â Barddas; a chwrs undydd ar fforio ag ysgrifennu am natur.

Croesawyd aelod newydd o staff ym Mehefin. Mae Lora Juckes-Hughes yn ymuno â thîm Llenyddiaeth Cymru fel Cymorth Gweithrediadau Tŷ Newydd. Mae Lora wedi setlo i mewn yn dda, ac eisoes yn cyfrannu yn frwdfrydig i bob agwedd o waith y ganolfan.

Cytundebwyd garddwr newydd i gynnal a chadw gerddi'r safle. Ar ôl tri ymweliad yn unig mae'r gerddi yn edrych ar eu gorau, yn barod i groesawu gwesteion cyrsiau'r haf.

Prif uchafbwynt artistig Tŷ Newydd oedd ein cyrsiau strategol: **Stori i Bawb**, cwrs mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru i 9 awdur Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli, gyda'r bwriad o greu straeon amrywiol i blant a chymeriadau sy'n cynrychioli pawb, a'r **Encil Sgiliau Sgriptio** mewn partneriaeth â Theatr y Sherman a groesawodd 12 dramodydd sy'n cael eu tangynrychioli o Gymru i dreulio wythnos yng nghwmni'r tiwtoriaid Branwen Davies ac Alice Eklund. Hefyd cawsom y pleser o groesawu Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn, wrth iddo gynnal ei brosiect olaf yn y rôl – y prosiect **Cerddi Sudoku**, ddaeth â 6 bardd sy'n 'sgwennu mewn amryw ieithoedd ynghyd i gyfieithu cerddi ei gilydd ac i archwilio iaith. Cynigwyd dau benwythnos mewn da hefyd i Gwmni'r Frân Wen ac i'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer cyrsiau sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth – gan ddarparu gofod i feddwl yn greadigol ac i gydweithio.

## Penawdau

- Yn ystod chwarter 1, cynhaliwyd 12 cwrs ag encil yn Nhŷ Newydd, yn cynnwys **un** cwrs digidol, **dau** gwrs undydd, **pum** cwrs preswyl a **phedair** encil yn Nant (un a barodd am chwe wythnos)
- Bu 64 awdur yn cymryd rhan yn ein cyrsiau ac encilion y chwarter hwn.
- Roedd **96%** o gyfranogwyr yn cytuno fod cyrsiau wedi helpu eu datblygiad fel awdur, a **93%** yn nodi eu bod yn debygol o archebu cwrs neu encil yn Nhŷ Newydd yn y dyfodol.*

**yn seiliedig ar 30 cyfranogwr a ddychwelodd ffurflen adborth*





# Gweithgaredd ar y Gweill

- **Trwy gydol chwarter 2:** 11 o gyrsiau agored yn Nhŷ Newydd, gan gynnwys cyrsiau ar leisiau dosbarth gweithiol, natur, ac ysgrifennu i iachau.
- **Drwy gydol Gorffennaf:** Bydd Cymru Ni, prosiect a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiad, yn cael ei gyflawni trwy weithdai ysgol.
- **6 Gorffennaf:** Cyhoeddi mai Hanan Issa yw Bardd Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-25.
- **11-15 Gorffennaf**: Wythnos Cynrychioli Cymru, gan gynnwys cyhoeddi Mentoriaid 2022, a lansiad meddal Cynrychioli Cymru 3.
- **13 Gorffennaf:** Sesiynau olaf Do You Get Me yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail yn dilyn preswyliad blwyddyn o hyd Eloise Williams yno.
- **14 Gorffennaf:** Un o'n Sgyrsiau Creadigol ar ddarllen er llesiant, mewn partneriaeth â sefydliad The Reader.
- **19-21 Gorffennaf:** Tridiau o ddarllediadau yn cyhoeddi enillwyr Cymraeg Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar raglen Stiwdio BBC Radio Cymru.
- **29 Gorffennaf:** Cyhoeddi enillwyr Saesneg Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar The Arts Show, BBC Radio Wales.
- **30 Gorffennaf – 6 Awst:** Digwyddiadau Llenyddiaeth Cymru yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- **Awst (dyddiad i'w gadarnhau):** Agor Ceisiadau Cynrychioli Cymru 3.

# Uchafbwyntiau Cyfathrebu

- Cafodd **Cynllun Strategol** 2022-2025 ei lansio ym mis Mai, ynghyd â chyflwyniad fideo , uchafbwyntiau ar-lein, uchafbwyntiau ar PDF a thair cerdd fideo, er mwyn cynyddu'r nifer sy'n darllen ac yn ymwneud â'r cynllun.
- Ailstrwythurwyd gwefan Llenyddiaeth Cymru, er mwyn creu gwell llwybrau i'r defnyddwyr. Cafodd adrannau newydd eu hychwanegu, fel 'Rwy'n Athro', i ddangos yn well ein gweithgareddau a'r cymorth rydyn ni'n ei roi i'r sector addysg.
- A hithau'n ddwy flynedd ers i'r coronafeirws ddechrau amharu ar ein bywydau, comisiynwyd **Ifor ap Glyn**, y Bardd Cenedlaethol, i nodi hyn drwy fyfyrio am pwnc. Cafodd ei gerdd ei rhannu gan Mark Drakeford, y Prif Weinidog, ac mae modd ei gweld fan hyn.
- Cyhoeddwyd grŵp newydd o awduron **Cynrychioli Cymru** ym mis Ebrill, a dilynwyd hynny gan lansiad ein sesiynau am ddim i'r cyhoedd ym mis Mai.
- Cyhoeddwyd **Rhestr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn** – y rhestr Gymraeg ar raglen Stiwdio BBC Radio Cymru, a'r rhestr Saesneg ar BBC Radio Wales Drive.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



# Uchafbwynt: **Ein nod Iechyd a Llesiant**

Mae profion clinigol wedi dangos bod darllen ac ysgrifennu creadigol yn fuddiol i'n llesiant, yn gorfforol ac yn feddyliol ill dau. Mae llenyddiaeth yn adnodd economaidd grymus y gellir ei ddefnyddio i fynd i'r afael â lefelau uchel o unigrwydd ac ynysigrwydd, a gall gyfrannu at wella bywydau pobl Cymru, gan ein helpu i weithio tuag at Gymru fwy iachus, a chefnogi adferiad wedi COVID.

## Uchafbwyntiau Gweithgaredd

### Children's Laureate

Ym mis Mai, comisiynwyd y Children's Laureate, **Connor Allen** gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion i redeg cyfres o weithdai barddoniaeth ar y pwnc iechyd meddwl a thechnoleg, yn seiliedig ar gynhadledd drafod pobl ifanc y Coleg.

Bu i ddwy ysgol gymryd rhan, a hynny yn ystod wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Erbyn hyn, mae Connor yn gweithio ar fideo-gerdd a fydd yn arddangos y cerddi a grëwyd yn y sesiynau hyn.

### Newport Mind: Piece by Piece

Mae'r prosiect hwn yn cynnig cefnogaeth iechyd meddwl i bobl ifanc a theuluoedd sydd wedi profi trawma yn ddiweddar.

Yn chwarter 1: cynhaliwyd 2 sesiwn ym mis Ebrill yng Nghanolfan Gymunedol Mileniwm Pil, gyda 4 yn mynychu.

Mae prosiect **2 ddiwrnod o hyd** wedi ei drefnu tua diwedd Gorffennaf, a fydd yn datblygu gwaith creadigol cyfranogwyr.
Mae cefnogaeth creadigol yn parhau i gael ei ddatblygu, gydag artistiaid wedi cynnal **2 sesiwn flasu** ar gyfer **5 cyfranogwr posib**.

### Ar y Dibyn

Prosiect sy'n cynnig gweithdai ysgrifennu creadigol i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan faterion dibyniaeth, sy'n hybu hyder a hapusrwydd ymysg cyfranogwyr.

Ym Mai, cynhaliwyd arddangosfa o waith yn Galeri, Caernarfon i gynulleidfa o 87. Theatr Genedlaethol Cymru sy'n arwain ar y prosiect hwn mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru.

Yn dilyn podlediad peilot ym Medi, mae dau bodlediad pellach wedi eu rhyddhau ym Mai a Mehefin. Gallwch wrando arnynt yma.

# Uchafbwynt: **Ein nod Iechyd a Llesiant**

## Gwersi i'w Dysgu: Iechyd a Llesiant

- Er fod y pandemig wedi ein galluogi i addasu ein darpariaeth ar gyfer platfformau digidol, nid yw hyn wedi bod yr un mor lwyddiannus ar gyfer cyfranogwyr bregus. Mae wedi cyflwyno rhwystrau ychwanegol iddynt, megis rhagor o deimladau o bryder ac o ynysigrwydd, yn ogystal â diffyg mynediad i ofodau diogel a thechnoleg.

- Mae gweithgaredd ar gyfer ein prosiect gyda Mind Casnewydd wedi cael ei effeithio yn benodol yn dilyn nifer o newidiadau staffio ymysg y partneriaid. Bydd ffactorau fel rhain yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r broses o dracio datblygiad partneriaethau.

- Mae llesiant staff wedi bod yn ystyriaeth o fewn prosiectau Iechyd a Llesiant, gydag Ar y Dibyn yn darparu sesiynau cwnsela am ddim i staff ac artistiaid. Serch hynny, efallai y dylid cynnig amrywiaeth o gwnselwyr, gan i rai aelodau staff nodi nad oeddynt wedi derbyn y cynnig gan fod ganddynt berthynas broffesiynol gyda'r cwnselydd.

**"Roedd yn wych ac yn gymaint o hwyl! Roeddwn i'n arfer meddwl fod rhaid i farddoniaeth odli er mwyn gwneud synnwyr, ond rwy'n deall erbyn hyn fod dim rhaid iddo."** -Disgybl







Connor Allen, ein Children's Laureate, yn cynnal gweithdai barddoniaeth gyda disgyblion yn Ysgol Gynradd Radyr 2022

## O Ebrill 2022 i Mehefin 2022:

**254**
O gyfranogwyr ac aelodau o gynulleidfaoedd

Dros
**7**
o Sesiynau

**2**
Sesiwn blasu

**2**
Arddangosfa

**2**
Bodlediad wedi eu rhyddhau

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

## Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru**: Sicrhau mwy o ymgysylltu, gwell hygyrchedd, a mwy o effaith drwy weithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Datblygu partneriaethau gydag o leiaf 3 o grwpiau cymunedol sy'n gweithio gyda grwpiau penodol sydd wedi'u tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | Ar y gweill. Mae'r prosiect cymunedol Llên mewn Lle / Lit in Place yn cael ei ddatblygu, i ganolbwyntio ar brosiectau lleol. Mae sgyrsiau hefyd wedi cychwyn gyda Tŷ Cerdd a Mymuna Soleman o'r bartneriaeth Somali Dance. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Cynyddu'r canllawiau sydd ar gael fel rhan o raglen ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan helpu trefnwyr digwyddiadau llenyddol ledled Cymru i ddarparu digwyddiadau cynhwysol a hygyrch. | Ar y gweill i gael ei ddiweddaru yn haf 2022 i sicrhau fod ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau yn cysylltu â'n strategaeth, ac yn cynorthwyo trefnwyr digwyddiadau i drefnu mwy o ddigwyddiadau cynhwysol ac i lynu at ymarfer da o ran ffioedd ag ati. | |
| Hyfforddi mwy o awduron drwy'r rhaglen Sgyrsiau Creadigol mewn themâu fel: diogelu, rhannu'r arferion gorau, a sut i ddarparu cyfleoedd llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol. | Mae **12** o sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn, yn rhoi sylw i amrywiaeth o themâu. Er enghraifft, ym mis Medi, bydd Casia Wiliam, cyn-Fardd Plant Cymru, a Casi Wyn, Bardd Plant presennol Cymru, yn cynnal sesiwn yn edrych ar sut i ddarparu gweithdai ysgrifennu creadigol i blant drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
| Buddsoddi £45,000 ar raglen sy'n ceisio helpu i ddarparu cwricwlwm amrywiol yng Nghymru, sy'n cynnwys rhoi £21,000 yn uniongyrchol i awduron o liw. | Rydyn ni wedi cael £45,000 gan yr Adran Addysg i ddarparu'r rhaglen hon, a ddechreuodd ym mis Mehefin wrth i clare e potter a Nia Morais fynd i 3 ysgol, gan gynnal 4 sesiwn ynglŷn â newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae'r gweithdai ym maes hil a hunaniaeth, dan arweiniad Izzy Rabey (yn y Gymraeg) a Connor Allen a Duke Al Durham (yn y Saesneg) yn dechrau ym mis Gorffennaf. Rydyn ni ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i wario **£19,870** ar awduron o liw. Bydd **£1,200** bellach yn mynd at greu adnoddau gyda'r penaethiaid Saesneg a Hanes o Gonsortiwm Canolbarth y De, gan nad oes gan y ddau awdur academaidd y cysylltwyd â hwy'n wreiddiol y capasiti i wneud hyn. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr holl ddogfennau'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau hygyrch, gan gynnwys fersiynau sy'n ystyriol o ddyslecsia. | Mae pob galwad agored yn cynnwys ffurflen gais dyslecsia gyfeillgar, Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau fideo a sain ar gyfer ein cyfleoedd mwyaf, er enghraifft Bardd Cenedlaethol Cymru. Mae'r gwaith yn parhau i adolygu ac addasu'r darpariaethau presennol, gan gynnwys ein hadnoddau. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 14 o awduron, a'r rheini i gyd yn dod o gymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. | Cwblhaodd y staff broses ymgynghori ar gyfer rownd nesaf Cynrychioli Cymru, gan dreulio cyfanswm o **14 awr** yn sgwrsio ag awduron, sefydliadau ac academyddion. Mae'r staff yn gweithio ar amserlen newydd ac yn gobeithio lansio'r cynllun yn gynharach o lawer na'r llynedd. Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal i 13 awdur fodd bynnag yn hytrach na 13. | |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Mae **3 sesiwn** sy'n agored i'r cyhoedd wedi'u cyhoeddi. Mae **1 o'r rhain** eisoes wedi'i chynnal a bydd **2 arall yn cal eu cynnal dros yr haf.** Bydd tair sesiwn arall yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi. Hyd yma, mae'r sesiynau agored hyn wedi denu **75 o gyfranogwyr.** | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Rydyn ni'n dal yn casglu adborth ar ôl y cyfnod mentora gan grŵp o awduron Cynrychioli Cymru #1, a hynny drwy'r rhaglen ôl-ofal. Bydd pob awdur yn derbyn 3 sesiwn fentora ychwanegol dros y flwyddyn nesaf. Byddwn yn cysylltu ag aelodau penodol o grŵp o awduron Cynrychioli Cymru #1 wrth ail-lansio'r **arolwg hydredol** ym **mis Ebrill 2023,** a bryd hynny bydd sesiynau cadw mewn cysylltiad ffurfiol yn cael eu cynnal â 3-4 aelod. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cyflwyno eich Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddiweddaru | Mae disgwyl diweddariadau ym mis **Gorffennaf 2022.** Cafodd y cynllun ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2021 gyda chymorth swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Hwyluso 5 o brosiectau partneriaeth a chyfarfodydd parhaus â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth mewn llenyddiaeth plant yn y Gymraeg | Mae'r gweithgarwch yn mynd rhagddo ac yn amrywiol. Ym mis Ebrill, mae hyn wedi cynnwys cyfarfod am bartneriaeth posibl â **Penguin Random House** ym maes Llenyddiaeth Pobl o Liw a chymryd rhan yng Nghynhadledd y **Books Trust Cymru** ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Darllen er pleser yn y blynyddoedd cynnar.<br>Rydym ni hefyd wedi cynnal y cwrs **Stori i Bawb** yn Nhŷ Newydd mewn partneriaeth â'r **Cyngor Llyfrau**. Fe wnaeth Llenyddiaeth Cymru hefyd gefnogi **Firefly Press** wrth lansio cystadleuaeth i ddod o hyd i leisiau newydd ym maes llenyddiaeth plant, gyda'r enillwyr yn cael eu gwahodd i gwrs o'u dewis yn Nhŷ Newydd yn 2023. | |
| Yr holl staff a'r Cyfarwyddwyr i gwblhau cwrs ymwybyddiaeth wedi'i deilwra mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. | Yn y cam cynllunio, ac mae disgwyl cynnal hyn yn hydref **2022**. | |
| Meithrin partneriaethau rhyngwladol â gwledydd eraill yr ieithoedd Celtaidd, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon a'r Alban. | Mae hyn yn mynd rhagddo. Perfformiodd ein Beirdd Plant yn ddiweddar mewn arddangosfa perfformio barddoniaeth yng Ngŵyl y Gelli, mewn partneriaeth â'r **Bardd Plant Gaeleg**. Fe wnaeth Llenyddiaeth Cymru hefyd ffurfio partneriaeth ddysgu â'r **Scottish Books Trust** ar ôl ymgynghori â nhw am ddatblygu cynllun Cynrychioli Cymru 3. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Ehangu a datblygu ein partneriaethau cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | Mae'r staff ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r **Sefydliad Iechyd Meddwl** i gynnal Sgwrs Greadigol ym mis Hydref fel rhan o Ŵyl Celfyddydau'r Rhuban Gwyrdd. Bu'r Children's Laureate, Connor Allen, yn gweithio'n ddiweddar mewn partneriaeth â **Choleg Brenhinol y Seiciatryddion** i edrych ar iechyd meddwl a thechnoleg yn ystod wythnos iechyd meddwl, ac mae'r gweithgareddau wedi dechrau ar gyfer prosiect Gwaith Comisiwn i Awduron 4, Writing Tree/Coeden Ysgrifennu, sy'n helpu mamau newydd mewn partneriaeth â gwasanaeth amenedigol **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Datblygu dull strategol o greu partneriaethau cenedlaethol. | Mae archwiliad o'n partneriaethau'n mynd rhagddo, gyda'r nod o greu adnodd clir a fydd yn helpu aelodau'r staff i flaenoriaethu partneriaethau posibl, gan sicrhau ein bod yn creu partneriaethau â sefydliadau a fydd yn ein galluogi i gael yr effaith orau a chanfod bylchau amlwg. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu Llên mewn Lle, hyfforddi beirdd lleol i fod yn hwyluswyr llenyddol dawnus. | Mae cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau bod **3** Hwylusydd yn gweithio yn eu cymunedau erbyn mis **Hydref/Tachwedd** 2022. Bu oedi o ryw fis cyn dechrau'r prosiect hwn, er mwyn iddo gyd-fynd yn well â chapasiti'r partneriaid. Rydyn ni ar hyn o bryd yn gweithio ar gytundeb partneriaeth, gyda WWF yn bartner swyddogol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | Wedi'i gynllunio ar gyfer **Haf 2022**, byddwn yn diwygio meini prawf y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan gefnogi trefnwyr digwyddiadau lleol i gynnal digwyddiadau mewn ffyrdd cynhwysol, cynaliadwy ac effeithiol. Mae'r gwaith wedi dechrau i hyfforddi'r swyddog Cefnogaeth Gweithredol newydd, i roi capasiti ychwanegol ymhlith y staff. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Recriwtio 2 gyfarwyddwr newydd i'r Bwrdd. | Cytunwyd ar amserlen ar gyfer recriwtio 2 aelod newydd o'r bwrdd erbyn mis **Hydref 2022** a 2 aelod arall erbyn mis **Mawrth 2023.** | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | Mae'r gwaith hwn yn y camau cynllunio ar hyn o bryd, ac rydyn ni'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddarparwr a all gynnig gwneud hyn yn ddwyieithog. | |
| Proses recriwtio'r Prif Weithredwr wedi mynd rhagddi'n llwyddiannus. | Yn mynd rhagddo – Mae'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio wedi bod. Bydd y cyfweliadau cychwynnol yn cael eu cynnal gyda'r staff **ddydd Mawrth 12 Gorffennaf,** gyda'r cyfweliadau ffurfiol i'w cynnal **ddydd Mercher 13 Gorffennaf.** | |
| Gweithio i leihau cymudo gan staff ac annog teithio llesol, gan gynnwys gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Nhŷ Newydd. | Yn mynd rhagddo – Y cynllun seiclo i'r gwaith wedi'i gyflwyno, gyda **2** aelod o staff yn manteisio arno. Ar hyn o bryd, nid oes grantiau ar gael i osod mannau gwefru trydan, ond mae'r Swyddogion Amgylcheddol yn dal i adolygu hyn. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 22/23

## Targedau Ychwanegol

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Codi Arian | Datblygu polisi ynghylch codi arian yn foesegol (arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan). | Ar **24 Awst,** byddwn ni'n cynnal sesiwn i'r holl staff ac ymddiriedolwyr, gyda chyllid cynllun **Prosper Celfyddydau a Busnes Cymru,** er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â moeseg wrth inni godi a gwario arian. Bydd hyn yn ein galluogi i greu ein polisi ar gyfer Codi Arian yn foesegol ac i ddatblygu ein hymateb i'r Contract Diwylliannol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Gweithredol | Cyflwyno'r gronfa ddata fewnol, newydd o awduron gan dracio data am gyfleoedd cyfartal sydd wedi'u rhoi gan yr awduron eu hunain ynghyd â gwybodaeth am arbenigeddau a nodau gyrfa'r dyfodol er mwyn galluogi Llenyddiaeth Cymru i ganfod cyfleoedd addas i awduron yn well, gan ddefnyddio iaith bersonol. | Buom yn casglu gwybodaeth ymgeiswyr aflwyddiannus am swydd y Bardd Cenedlaethol i'w dreialu, a chafwyd **2** ymateb hyd yma. Bydd sesiwn hyfforddiant i'r holl staff yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf, a bydd y staff yn casglu rhestr o hwyluswyr sy'n weithgar ar hyn o bryd er mwyn creu ymateb mwy o faint. | |

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 1

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Partneriaethau, Ymgynghoriadau a Gwaddol** | Datblygu cynllun gweithredu manwl i adeiladu perthynas â'r sector ysgolion dros Gymru, gan ganolbwyntio ar addysg uwchradd | • Rydyn ni ar hyn o bryd yn casglu data gan ein prosiect addysg gyda'r Llywodraeth (**Cymru Ni / Our Wales**), gan weithio gyda hwyluswyr mewn ysgolion uwchradd.<br>• Cafodd cyfarfod i hel syniadau newydd ei gynnal gyda holl staff Llenyddiaeth Cymru sy'n gweithio ar brosiectau addysg, er mwyn rhoi sail i waith cynllunio.<br>• Mae cyfarfodydd ym maes **hwyluso yn y sector** wedi'u cynnal gyda chynghorwyr Saesneg a Hanes o Gonsortiwm Canolbarth y De. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Partneriaethau, Ymgynghoriadau a Gwaddol** | **3** prosiect yn cael eu cynnal gyda chyrff cenedlaethol yn flynyddol | Rydyn ni wedi rhagori ar y nod hwn.<br>• Cafodd cynllun beirdd preswyl Natur a Ni ei lansio mewn partneriaeth â **Cyfoeth Naturiol Cymru.**<br>• Lansiwyd comisiynau **Natur a Llesiant** gyda **Cyfoeth Naturiol Cymru.**<br>• Cynhaliwyd y cwrs **Stori i Bawb** yn Nhŷ Newydd (Ebrill 2022) gyda **Chyngor Llyfrau Cymru**<br>• Mae prosiect addysg gydag Alex Wharton ar hyn o bryd yn mynd rhagddo ar y cyd â **Cadw**<br>• Mae prosiect **Bardd Plant Cymru** yn cael ei gynnal mewn partneriaeth ag **S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, Llywodraeth Cymru** a'r **Urdd.**<br>• Mae encilion strategol Tŷ Newydd yn cynnwys **Cwrs Olwen** sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth ag **Eisteddfod yr Urdd** ac encil sgriptio gyda **Theatr y Sherman**<br>**Ymhlith gweithgareddau'r dyfodol mae:**<br>• **Tirweddau Telynegol** gyda'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** (Medi 2022)<br>• **Llên mewn Lle ,** mewn partneriaeth â'r **WWF** | |

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 1

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023 | Y Cynnydd Presennol | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **Cyllid** | • Cyflwyno templedi cyllidebau ailddatblygu yn llwyddiannus ar gyfer creu rhagolygon<br>• Cyflwyno meddalwedd cyfrifyddu sy'n defnyddio system gwmwl | • Cafodd yr holl staff **hyfforddiant ym maes cyllid** ar 14 Mawrth 2022, a lluniwyd rhagolygon ar gyfer yr holl gyllidebau a'u cyflwyno cyn 1 Ebrill. Mae rownd gyntaf y gwaith o lunio ail-ragolygon yn dechrau ar 4 Gorffennaf.<br>• Fe symudon ni'n llwyddiannus i **QuickBooks** ym mis Mawrth 2022. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| **Cyfathrebu** | • Y wasg a'r cyfryngau: Sicrhau sylw gan o leiaf 3 phlatfform Haen 1 yn y wasg a'r cyfryngau ac o leiaf 6 yn Haen 2 | • Yn ystod Ch1, sicrhawyd sylw ar **1** platfform haen **1** ac **8** haen 2. (3 x BBC Radio Cymru, 1 x S4C, 3 x Golwg, 1 x Cymru Fyw, 1 x Nation.Cymru). Mae disgwyl rhagor o sylw gyda chyhoeddi enw'r Bardd Cenedlaethol newydd. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

<table>
<tr><th></th><th>Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2023</th><th>Y Cynnydd Presennol</th><th>Y dull o gasglu data</th></tr>
<tr><td>Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant</td><td>Cyfathrebu Hygyrch: Bydd yr holl ddogfennau allanol sy’n cael eu rhannu ar gael mewn print mawr a fformatau hawdd eu deall.</td><td>Mae hyn yn wir am bob galwad newydd, ond mae angen adolygu ein dogfennau drwy’r sefydliad, fel y dudalen Adnoddau i Awduron. Croesawyd aelod newydd o staff ddiwedd mis Mehefin, a fydd yn gweithio gyda’r tîm cyfathrebu i gyflawni hyn.</td><td rowspan="2">Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff</td></tr>
<tr><td>Cynaladwyedd</td><td>Ymwneud staff â chynlluniau eraill: Yr holl staff wedi dewis cael 4 diwrnod o seibiant i wirfoddoli’n amgylcheddol</td><td>Mae’r cynnig ar gyfer seibiant i wirfoddoli’n amgylcheddol wrthi’n cael ei lunio, ond mae’r sgyrsiau cychwynnol anffurfiol â’r staff wedi bod yn rhai cadarnhaol.</td></tr>
</table>

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Adnewyddwyd ein polisi EDI ar gychwyn chwarter 1, i'w gyflwyno i CCC. Cymerwyd y penderfyniad i newid y polisi hwn o un oedd â nifer o amcanion SMART i un oedd yn gosod gweledigaeth ar gyfer ein diwylliant sydd yn cyffwrdd â phob rhan o'n gwaith. Mae gennym sawl amcan SMART mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ond maent bellach i'w canfod mewn cynlluniau a pholisïau gweithgaredd a gweithredol yn hytrach na'u bod ar wahân. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cefnogi'r tîm i ystyried gweithredoedd EDI yn y broses gynllunio yn hytrach na rhywbeth ynysig.

Y chwarter hwn, cawsom dreialu Capsiynau Byw a Iaith Arwyddo Prydain am y tro cyntaf yn ein prosiect Sgyrsiau Creadigol. Rydym bob amser yn edrych am ddulliau i wneud ein digwyddiadau yn fwy hygyrch a chroesawgar i bawb. Un her yw'r angen i archebu dehonglwyr ymhell o flaen llaw, cyn i ni gasglu manylion llawn am anghenion mynediad y gynulleidfa. Yn aml felly, mae dehonglwyr yn bresennol, ond nid yw eu gwasanaethau eu hangen, gan arwain at wariant a ellid fod wedi ei osgoi. Byddwn yn parhau i archwilio ymarfer da o ran mynediad, creu rhestrau o ddehonglwyr allasai fod ar gael heb gymaint o rybudd, a threialu dulliau o wneud ein digwyddiadau yn hygyrch i bawb.

## Gwersi i'w Dysgu

Y chwarter hwn, rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer cyhoeddi ein Bardd Cenedlaethol newydd, Hanan Issa. Rydym yn awyddus iawn i ddysgu gwersi o gyhoeddiadau proffil uchel pobl o liw yn y celfyddydau yn ddiweddar (megis rôl Andrew Ogun fel Asiant er Newid Cyngor Celfyddydau Cymru) a sicrhau ein bod wedi paratoi yn drylwyr ar gyfer ymateb negyddol a'i effaith ar Hanan.

Rydym wedi cymryd amser i drafod amryw o naratifau cyfathrebu gwahanol gyda hi, a chynnig pecyn o fesurau diogelu o amgylch y rôl yn cynnwys ffi ar gyfer mentor allanol, Inua Ellams. Mae'r tîm cyfan wedi eu briffio ar ein polisi cyfryngau cymdeithasol ac wedi trefnu nifer o sgyrsiau gydag Hanan yn syth wedi'r lansiad.

Rydym yn gobeithio bydd y paratoadau yn ddiangen, ond rydym yn awyddus i ddatblygu ein prosesau wrth gefnogi awduron, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli a gaiff eu taflu i lygad y cyhoedd.

# Cynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae newidiadau wedi dod i rym gyda'n rhaglen Comisiynau i Awduron, bellach ar ei phedwaredd rownd, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru – gyda mwy o bwyslais ar awduron a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae prosiectau yn cynnwys Grym Geiriau, encil breswyl yn y Gymraeg, Saesneg a BLS i bobl ifainc sy'n anabl/Byddar/ sydd â salwch difrifol neu gronig i ddod ynghyd i archwilio eu profiadau a'u perthynas a natur; a The Long View fydd yn dwyn ynghyd menywod o liw i ymweld â gofodau natur yng Nghaerdydd a'r cyffiniau, ac ysgrifennu creadigol neu adrodd straeon i greu ymdeimlad o berthyn.

Cynigiodd dwy encil breswyl yn Nhŷ Newydd gyfanswm o 17 lle am ddim i awduron o liw ac awduron o gefndiroedd eraill sy'n cael eu tangynrychioli i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu i blant a phobl ifainc. Bydd nifer o'r awduron rheiny yn derbyn mentor i gael cymorth un-i-un gyda'u hysgrifennu er mwyn anelu i gyhoeddi eu gwaith.



Criw Stori i Bawb, Tŷ Newydd, 2022

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Adroddiad y Cynllun Gweithredu Cynaladwyedd

## Cynnydd Chwarter 1

**Cyflwyniad**
Mae ein cynllun strategol newydd yn cynnwys Cynllun Gweithredu Cynaladwyedd trylwyr, sy'n rhoi manylion y camau gweithredu mawr a bach y bydd Llenyddiaeth Cymru yn eu cymryd eleni ar ein taith i fod yn fwy cynaliadwy drwy ein gweithgareddau a'n gweithrediadau.

**Teithio a Thrafnidiaeth**
Mae'r Cynllun Gweithredu Cynaladwyedd wedi gosod nod o sicrhau gostyngiad o 40% yn ffigurau teithio a milltiroedd y staff, o'u cymharu â rhai 2019-2020. Yn 2019-2020, gwariwyd cyfanswm o £11,456.39 ar deithio, gan gynnwys gwario £5,076.83 ar yr holl gostau milltiroedd a thanwydd. Yn sgil symud i weithio gartref a chynnal cyfarfodydd ar-lein, mae llai o deithio o lawer wedi bod ers hynny. Y costau teithio yn 2021-2022 oedd £952 ac mae'r rhagolygon yn dangos mai'r costau teithio yn 2022-2023 fydd £979. Mae hyn tua 80% yn is na'r £5,076.83 a wariwyd yn 2019-2020.

**Papur, Argraffu a Deunydd Swyddfa**
Ar hyn o bryd, nid ydyn ni'n defnyddio papur wedi'i ailgylchu yn swyddfa Caerdydd. Roedd yn arfer cael ei ddefnyddio ar un adeg, ond byddai'n mynd yn sownd yn yr argraffwyr gan olygu bod angen galw'r cwmni argraffwyr i'r swyddfa (gan arwain at fwy o allyriadau carbon). Nid oes papur wedi'i brynu ar gyfer swyddfa Caerdydd ers cyn mis Mawrth 2020 – prynwyd 2 focs cyn hynny, a dim ond un sydd wedi'i ddefnyddio yn y cyfamser. Yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, argraffodd swyddfa Caerdydd 1,986 o dudalennau (1,625 du a gwyn; 361 lliw). Yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon, mae swyddfa Caerdydd wedi argraffu 622 o dudalennau (603 du a gwyn ac 19 lliw). Mae rîm newydd o bapur wedi'i ailgylchu wedi'i brynu ar gyfer llungopïwr Tŷ Newydd. Yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma, mae swyddfa Tŷ Newydd wedi argraffu 1,255 o dudalennau (827 du a gwyn a 428 lliw).

Bydd contract swyddfa Caerdydd gyda'r cwmni argraffwyr yn dod i ben cyn hir. Oherwydd y gostyngiad sylweddol mewn argraffu, y bwriad yw cael argraffydd llai yn lle'r un presennol, ar ôl cael dyfynbrisiau addas gan ddarparwyr gwasanaethau. Bydd yr argraffydd hwn yn arbed mwy o ynni a hefyd yn cymryd llai o le yn y swyddfa. Cymerodd Tŷ Newydd eisoes y cam hwn ym mis Mehefin 2022.

Yr unig ddeunydd a chyflenwadau swyddfa a brynwyd ar gyfer y naill swyddfa a'r llall yn ystod Ch1 oedd deunydd lapio swigod ar gyfer swyddfa Caerdydd – prynwyd hwn gan gyflenwr lleol mewn swmp (i osgoi gorfod danfon mwy yn y dyfodol) ac mae modd ei ailgylchu'n llwyr. Yn 2022-23, mae'r rhagolygon yn dangos y byddwn yn gwario £488 ar ddeunydd swyddfa.

### Symud i system gwmwl ar gyfer storio

- Ym mis Mehefin, symudodd Llenyddiaeth Cymru i system gwmwl ar gyfer storio – gan symleiddio ein systemau ffeilio a lleihau faint o ofod storio sy'n cael ei ddefnyddio.
- Dim ond newydd ddechrau defnyddio'r system newydd ydyn ni, a dros y misoedd nesaf (wrth i ddogfennau gael eu harchifo ac wrth i'n defnydd o'r gweinydd leihau a dod i ben) dylen ni weld gostyngiad dramatig yn y GBs o ofod storio rydyn ni'n eu defnyddio. Cyn symud i'r system gwmwl, roedd ein gyriant P: (y gweinydd) yn defnyddio 871GB o ofod storio.
- Mae'r staff wedi cael hyfforddiant mewnol a chanllawiau am sut i fynd ati'n bwrpasol i gadw ein systemau ffeilio'n drefnus, ac fe'u hatgoffir i fod yn ymwybodol bod gan bob e-bost, dogfen a ffolder ôl-troed carbon.

### Tŷ Newydd - Yr Adeilad a'r Tir

- Ar ôl i Lenyddiaeth Cymru ddod yn rhan o **Academi Ddigidol Werdd** gyda Grŵp Llandrillo Menai yn ddiweddar, rydyn ni bellach wedi cael yr adroddiad yn ôl gan yr ymgynghorydd, sy'n dangos ffyrdd posibl i'r busnes leihau ei ôl-troed carbon a gwneud cynnydd tuag at gyflawni statws **Sero Net**.
- Mae'r asesiadau cychwynnol yn awgrymu na fyddai gwresogi amgen (h.y. gwres o'r ddaear) yn addas nac yn effeithiol yn Nhŷ Newydd oherwydd natur y safle. Serch hynny, mae ffyrdd eraill a allai fod yn opsiynau posibl i leihau ein hallyriadau carbon. Bydd asesiadau pellach yn cael eu gwneud dros y misoedd nesaf a'u diweddaru maes o law.

# Gwersi i'w Dysgu: Sefydliadol a Gweithredol

**Trosglwyddo Prosiectau**

Efallai fod hyn yn bwynt gor-syml, ond y chwarter hwn mae dau aelod newydd o staff wedi cychwyn, a nifer o dasgau ar rhai o'n prosiectau craidd wedi eu trosglwyddo rhwng aelodau o staff. Mae'r amser y mae hyn yn ei gymryd wedi ei dan-amcan. Mae'r SLT bellach yn ymwybodol o hyn, a byddant yn sicrhau fod rheolwyr llinell yn deall yn well yr amser sydd ei angen i anwytho aelodau newydd o staff wrth baratoi amserlenni recriwtio, a sicrhau fod prosiectau ddim yn cael eu symud o un aelod staff i un arall yn rhy aml.

**Cyllidebau Tŷ Newydd**

Mae dwy flynedd o fod ar gau wedi arwain at ambell gyfundrefn yn cael ei anghofio, yn benodol ein rheol fod raid i awduron dalu balans llawn eu cyrsiau 6 wythnos cyn y dyddiad cychwyn i osgoi cansliadau munud olaf a cholli incwm. Mae'r drefn yn ddibynnol ar gydlynu tasgau rhwng aelodau gwahanol o staff, ac mae system newydd angen ei chreu a'i dilyn i sicrhau ein bod yn glynu at ein polisi 6 wythnos i sicrhau'r incwm mwyaf posib.

**Amserlennu Negeseuon Cyfathrebu**

Er ein bod wedi mwynhau bod â nifer o raglenni newydd a chyffrous i'w cyhoeddi eleni, rydym wedi dysgu fod angen i ni wella o ran cynllunio ar lefel sefydliadol i sicrhau nad ydym ni'n amserlennu gormod o gyhoeddiadau proffil uchel yn rhy agos i'w gilydd, gan beryglu gwanhau eu heffaith (heb sôn am roi'r staff dan bwysau). Nid yw rheolwyr prosiectau unigol bob amser yn gwybod sut mae eu prosiectau yn ffitio mewn i'r gwaith yn ehangach, felly mae Claire yn gweithio i ddatblygu system syml i dracio hyn heb orlwytho staff gyda gwaith gweinyddol.

**Gweithio ag Ysgolion**

Y chwarter hwn, rydym wedi cychwyn ar ein prosiect gweithdai ysgolion mawr, Cymru Ni, sy'n cael ei gefnogi gan Llywodraeth Cymru. Yn rhannol oherwydd yr amser o'r flwyddyn ac yn rhannol gan fod y prosiect yn digwydd mewn ysgolion uwchradd, bu'n anoddach na'r disgwyl i gael ysgolion i gofrestru ar gyfer gweithdai am ddim. Mae'r gweithdai bellach i gyd wedi eu archebu, ond rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr ynglŷn â sut i gyfathrebu ag ysgolion, a'r swydd hynod bwysig mae consortia rhanbarthol yn ei chwarae wrth hybu cyfleoedd i ysgolion.

# Gwersi i’w Dysgu: Gweithgaredd

| Gweithgaredd | Gwersi i’w Dysgu<br>1 Ebrill – 30 Mehefin 2022 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| **Cymru Ni \| Our Wales** | Ni chafodd ein targed i ddarparu gweithdai **Cymru Ni \| Our Wales** mewn 24 ysgol erbyn diwedd y flwyddyn academaidd ei gyrraedd, gan fod yr ysgolion yn araf yn derbyn y cynnig. Cynllun sy’n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yw hwn. | • Datblygu cynllun marchnata mwy pwrpasol ac apelgar i ymwneud ag ysgolion<br>• Cynnwys ymgynghori ag athrawon llenyddiaeth yn y gwaith datblygu wrth greu strategaeth addysg newydd i Lenyddiaeth Cymru |
| **Gwaith Comisiwn i Awduron #4** | Cafodd pedwar comisiwn eu rhoi ar gyfer prosiectau ym mis Mawrth 2022, yn dilyn proses ymgeisio hynod o gystadleuol, ond bu oedi gyda’r holl brosiectau ac ni fyddan nhw’n dechrau tan fis Medi, am amryw o resymau. | • Cynnwys mwy o fanylion yn nhestun y galwadau, gan gynnwys y telerau a’r amodau sy’n ymwneud â’r amserlen ar gyfer cyflawni<br>• Gosod gofynion llymach yng nghontractau gwaith comisiwn y dyfodol gan gynnwys yr angen am amserlen ar gyfer cyflawni |
| **Cynrychioli Cymru a Bardd Cenedlaethol Cymr** | Mae galwadau agored am gyfleoedd wedi bod yn newid cadarnhaol yn ddiweddar, ond mae heriau ynghlwm wrth hynny – yn benodol o ran digio, siomi neu ddieithrio awduron pan na fyddan nhw’n llwyddiannus. | - Datblygu ar y gwaith a ddechreuwyd eisoes i gynllunio ein proses ‘wrthod’ yn drylwyr, i sicrhau ein bod yn drylwyr, yn deg, yn ystyriol, ac yn agored wrth roi adborth, a’n bod yn gweithio ar y cyd fel tîm creadigol i ddod o hyd i gyfleoedd eraill sy’n addas i ymgeiswyr da<br>- Parhau i ddatblygu rhestr gysylltiadau mewnol ac allanol er mwyn cynnig cyfleoedd perthnasol i awduron. |
| **Cyrsiau Tŷ Newydd** | Bu rhaid canslo neu ohirio rhai cyrsiau oherwydd ffigyrau archebu isel. Mae’r bwlch dwy flynedd mewn gweithgaredd yn Nhŷ Newydd yn golygu bod angen rhagor o farchnata er mwyn adennill cynulleidfaoedd, a denu awduron newydd. | - Rhagor o bwyslais ar werthiant o fewn y tîm cyfathrebu<br>- Wrth gynllunio’r rhaglen, dylid rhoi cerrig milltir marchnata yn y calendr I gyd-fynd â’r cynllun marchnata. |